**Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr ABERYSTWYTH a gynhaliwyd o bell bell drwy fideo-gynadledda ddydd Iau 30 Hydref 2025**

**Cynrychiolaeth Cyngor Sir Ceredigion:** y Cynghorydd Shelly Childs (Cadeirydd), y Cynghorwyr Endaf Edwards

**Swyddogion yn bresennol:** Owen Morgan, Katy Spain, Robyn Beresford, Dana Jones

**Defnyddwyr Harbwr**: Meurig Lewis, Huw Roberts, Chris Seal, Martin Wood, Steve Webb

(7.00pm – 7:25pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Dim.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2025**
   CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion cyfarfod 27 Mawrth 2025 fel cofnod cywir.

   **Materion yn codi**
   Dim.

3. **Diweddariad ar Wasanaethau'r Harbwr**
   - Anfonwyd cylchlythyr Harbwr Diogel (Calm Waters) at holl ddefnyddwyr yr harbwr.
   - Roedd dau gynorthwyydd tymhorol newydd (Chloe Roberts, Eve Rees) wedi ymuno â'r tîm; mae'n bosibl y bydd y ddwy yn dychwelyd y flwyddyn nesaf.
   - Penodwyd Robyn Beresford yn Arweinydd Gwaith Harbwr yn dilyn ymadawiad Chase Anders.
   - Gosodwyd uned swyddfa'r harbwr newydd; ar hyn o bryd dim ond trydan sydd ar gael; yn aros am gyfleustodau a gwaith plymio; gobeithir y bydd yn barod i'w defnyddio cyn y Nadolig.
   - Diweddarwyd y Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol ym mis Ebrill; trefnwyd ymarfer cydymffurfio ar gyfer Ionawr–Mawrth.
   - Atgoffwyd defnyddwyr i ddefnyddio iaith briodol wrth ddefnyddio'r radio Amledd Uchel Iawn (VHF).

4. **Rhestr Aros Angori wedi'i golygu**
   CYTUNWYD i nodi'r rhestr aros angori fel y'i cyflwynwyd.

5. **Cynnal a Chadw Cyffredinol a Glendid**
   - Ailbaentiwyd y cymhorthion mordwyo, gan gynnwys y golau ar y lanfa bren a'r marciau ochr chwith/dde (port/starboard).
   - Bwriedir sefydlu goleuadau arwain ar Ffordd Pen Yr Angor er mwyn gwella mynediad i'r harbwr yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
   - Adferwyd cerrig ar y gored er mwyn mynd i'r afael â materion yn yr harbwr.

- Mae’r prosiect pontŵn canolog ar dendr; mae’r broses gaffael yn mynd rhagddi. Mae’r tendr ar agor tan 20 Tachwedd; mae cyllid wedi’i sicrhau ac mae’r dewis o gontractwr yn yr arfaeth.
- Gofynnodd yr orsaf bad achub am eglurhad ynghylch lleoli cychod a adferwyd. Adroddwyd nad oedd yn glir a oedd gofyniad i hysbysu ‘gwasanaethau’r harbwr’ cyn mynd i mewn i’r harbwr; gall sefyllfaoedd brys atal rhoi rhybudd ymlaen llaw. Mae angen canllawiau ar gyfer lleoli cychod er mwyn lleihau aflonyddwch; mae’r defnydd blaenorol o angorfa danwydd y marina bellach wedi’i gyfyngu. Cytunwyd y dylid hysbysu’r awdurdod harbwr cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol, yn enwedig mewn achosion o lygredd neu risgiau llongddrylliad mawr, ac y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu gyda’r awdurdod harbwr, rheolwr y marina a rhanddeiliaid i sefydlu canllawiau clir a chynlluniau wrth gefn.

**6. Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**

Dim.

DRAFT